YSGOL ABERCONWY

Mai 2018

Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf

Gyda dim ond saith wythnos academaidd ar ôl o'r flwyddyn ysgol hon, rydym ni'n carlamu at y llinell derfyn!

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y rhifyn hwn ac mae croeso i chi gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw straeon yr hoffech eu rhannu neu awgrymiadau yr hoffech eu gweld yn y cylchlythyr hwn.

Cyfarpar Achub Bywyd yn Ysgol Aberconwy!

Gall ataliad y galon ddigwydd ar unrhyw adeg, yn unrhyw le.
Oeddech chi'n gwybod…y gallai saith allan o bob 10 o bobl sy'n dioddef ataliad ar y galon oroesi, pe baent yn cael triniaeth diffibriliwr o fewn y pum munud cyntaf?

Yma yn Ysgol Aberconwy rydym yn falch o gyhoeddi, yn sgil ymdrechion i godi arian, rhodd gan Wasanaethau Hamdden Cymru ac ariannu cyfatebol gan Gronfa Goffa Sam Standerwick, ein bod wedi prynu nid yn unig un, ond DAU ddiffibriliwr.

Meddai Adrian, tad Sam a sylfaenydd y gronfa goffa, "Rwy'n falch iawn fy mod i'n gallu cyflwyno dau beiriant achub bywyd. Mae'n hynod bwysig ein bod ni'n sicrhau bod pawb yn ymwybodol o Cardiac Risk in the Young, a byddaf yn dal ati i weithio tuag at hynny. Ond mae gallu helpu i ariannu peiriannau fel hyn yn gyflawniad gwych i'r gronfa goffa. Rydym yn gobeithio na fydd byth eu hangen, ond mae'n dda i wybod bod dau yn yr ysgol, sy'n cynnwys bron i 800 o bobl ifanc, felly os bydd angen gellir eu defnyddio ar unwaith, ac o bosibl achub bywyd person ifanc."

Bydd un diffibriliwr yn cael ei leoli yn nerbynfa'r ysgol a'r llall yn Neuadd chwaraeon yr ysgol, a ddefnyddir hefyd gan y cyhoedd y tu allan i oriau ysgol.

Dosbarthiadau Meistr Mathemateg!

Yn ddiweddar mynychodd Edward ac Erin, disgyblion Blwyddyn 9, gyfres o Ddosbarthiadau Meistr Mathemateg ym Mhrifysgol Bangor, a drefnwyd gan y Sefydliad Mathemateg.

Dyfarnwyd dystysgrifau i'r ddau ddisgybl am ddysgu am rifau anweledig, matricsau ac anfeidredd!

Cefnogwyd y digwyddiad hefyd gan ddau o'n hathrawon Mathemateg gwych, Miss Hughes a Mr Howe, a gyflwynodd ddosbarthiadau meistr mewn Codau a Phosau. Llongyfarchiadau i bawb ohonoch am gymryd rhan!

YSGOL ABERCONWY

Mai 2018

Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf

Disgyblion Blwyddyn 10 yn Cwblhau Project Ffenics

Da iawn i'n disgyblion Blwyddyn 10 a gymerodd ran yn ddiweddar ym Mhroject Ffenics a gynhaliwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Yn ystod y project cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau gwasanaeth tân fel driliau, ymladd tanau a chwilio ac achub. Buont hefyd yn dysgu sgiliau cymorth cyntaf, trin â llaw, rheoli risg a diogelwch tân.

Gweithiasant yn dda fel tîm a chyda'i gilydd maent wedi gwella'u hyder, hunan-barch a'u sgiliau rhyngbersonol.

Da iawn i chi i gyd a diolch i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Disgyblion yn Ymweld â Phrifysgol Cymru Bangor

Da iawn chi i'n holl fyfyrwyr a gwblhaodd eu 'Quest' yn ddiweddar!

Drwy gydol eu project Quest 2018 cyflwynwyd disgyblion i'r Brenin Arthur a llwyddansant i gwblhau eu project 3 mis drwy ddod yn adroddwyr straeon digidol.

Cyflwynasant eu straeon Quest terfynol i'w ffrindiau a'u teuluoedd ym Mhrifysgol Cymru Bangor! Diolch arbennig i Raluca Radulescu, Gillian Brownson a Kate Stuart am eich cefnogaeth wych ac am ysbrydoli ein grŵp o ddisgyblion drwy gydol y project!

Adroddiad Estyn

Mae adroddiad diweddaraf Estyn ar Ysgol Aberconwy bellach ar gael. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth...

YSGOL ABERCONWY

Mai 2018

Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf

Cyngor am E-Ddiogelwch i Rieni & Gwarcheidwaid…

Gweplyfr…

Oeddech chi'n gwybod y dylai unrhyw un sy'n dal cyfrif Gweplyfr fod o leiaf yn 13 oed? Os oes gennych chi neu'ch plentyn gyfrif Gweplyfr, ydych chi'n ymwybodol o bwy sy'n gallu gweld eich negeseuon ac os gellir dod o hyd i chi drwy ddefnyddio chwiliad gwe cyhoeddus?

Gwnewch yn siŵr na ellir dod o hyd i chi drwy chwiliad gwe cyhoeddus!

- Ewch i osodiadau Gweplyfr…
- Os ydych chi'n defnyddio cyfrifiadur, bydd angen i chi glicio'r saeth tynnu i lawr sydd i'w gweld yng nghornel dde uchaf y tudalen a chlicio 'Settings'.
- Os ydych chi'n defnyddio'ch ffôn, bydd angen i chi wasgu'r tair llinell fach yn y cornel dde isaf a dewis 'Settings'.
- Unwaith y byddwch o fewn ardal 'Settings' dewiswch 'Privacy'
- Yma gallwch newid yr opsiynau ar eich gweithgarwch Gweplyfr a sut y gall pobl ddod o hyd i chi.
- Os nad ydych yn dymuno ymddangos mewn chwiliadau y tu allan i Weplyfr, cliciwch edit a thynnwch y tic o'r blwch neu o'ch ffôn i sicrhau nad yw'r opsiwn hwn yn weithredol.

Pwy sy'n gweld eich negeseuon?

Cyn i chi ddiweddaru eich tudalen, gallwch ddewis pwy sy'n ei weld drwy ddewis yr opsiwn preifatrwydd. Gallwch ddewis o'r prif opsiynau canlynol:

- **Cyhoeddus** – gall unrhyw un ar Weplyfr neu oddi arno ei weld.
- **Ffrindiau** – Dim ond eich Ffrindiau ar Weplyfr sy'n gallu ei weld.
- **Ffrindiau heblaw… / Ffrindiau Penodol…** - Gallwch dargedu neges fel mai dim ond y bobl yr ydych am iddynt weld y neges sy'n gallu ei gweld.
- **Fi yn unig** – ni fydd neb arall yn gweld y neges heblaw chi.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod pwy sy'n gallu gweld eich negeseuon!

Cyflwyniad E-Ddiogelwch…

Bydd Joy Chiplin o Wasanaeth Ieuenctid Conwy yn rhoi cyflwyniad e-ddiogelwch i rieni a gwarcheidwaid yn Nosweithiau Rhieni Blwyddyn 7 ac 8.

Llwyddiannau ym maes Chwaraeon…

Llongyfarchiadau i **Sophie** ac **Erin** (Bl 7) a ddewiswyd i fynychu gwersyll sgwad Datblygu Cenedlaethol Ymddiriedolaeth FAW yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd ddydd Sul, Mai 6ed. Cyflawniad gwych, chi'ch dwy!

Llongyfarchiadau i **Sam** (Bl 11) a fydd yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth codi pwysau draw yn Awstria yn ystod hanner tymor!

Dyddiadau allweddol:

Mawrth, Meh 12fed: Noson Rieni Bl 8

Mawrth, Gorff 10fed: Noson Rieni Bl 7

Gwener, Gorff 20fed: Diwrnod olaf cyn gwyliau'r Haf